OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 1064

# Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

**Hyfforddiant a chasglu gwybodaeth am gyflogaeth**

**9.**—(1) Rhaid i awdurdod, ym mhob blwyddyn, gasglu'r wybodaeth a ganlyn—

(a) nifer y personau a gyflogir gan yr awdurdod ar y dyddiad perthnasol yn y flwyddyn honno;

(b) nifer y personau a gyflogir gan yr awdurdod ar y dyddiad hwnnw yn ôl—

(i) swydd;

(ii) gradd, ond dim ond pan fo awdurdod yn gweithredu system graddau mewn cysylltiad â'i gyflogeion;

(iii) cyflog;

(iv) y math o gontract (gan gynnwys contractau parhaol a chyfnod penodol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny); a

(v) y patrwm gwaith (gan gynnwys trefniadau gweithio llawnamser, rhan-amser a threfniadau gweithio hyblyg eraill ond heb fod yn gyfyngedig i hynny).

(c) nifer y canlynol, yn ystod y cyfnod adrodd sy'n diweddu ar y dyddiad perthnasol yn y flwyddyn honno—

(i) personau sydd wedi gwneud cais am gyflogaeth gyda'r awdurdod (heb gynnwys personau sydd eisoes wedi eu cyflogi gan yr awdurdod);

(ii) cyflogeion yr awdurdod sydd wedi newid swydd yn yr awdurdod gan gynnwys y nifer a wnaeth gais am newid swydd a'r nifer a fu'n llwyddiannus (neu fel arall) yn eu cais;

(iii) cyflogeion yr awdurdod sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a'r nifer a fu'n llwyddiannus (neu fel arall) yn eu cais;

(iv) cyflogeion yr awdurdod a gwblhaodd yr hyfforddiant;

(v) cyflogeion yr awdurdod a fu neu sydd yn rhan o weithdrefnau cwyno naill ai am mai hwy yw'r person a wnaeth gyhuddiad yn erbyn un arall neu am mai hwy yw'r person y gwnaed cyhuddiad yn ei erbyn;

(vi) cyflogeion yr awdurdod a fu neu sydd yn destun achos disgyblu; a

(vii) cyflogeion yr awdurdod a ymadawodd â chyflogaeth yr awdurdod.

(2) Ym mharagraff (1) (ac eithrio paragraff (1)(b)) mae unrhyw gyfeiriad at nifer y personau neu'r cyflogeion yn cynnwys, mewn cysylltiad â phob un o'r nodweddion gwarchodedig, y niferoedd sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig.

(3) Ym mharagraff (1)(b) mae'r cyfeiriad at nifer y personau a gyflogir yn cynnwys, mewn cysylltiad â nodwedd warchodedig rhyw, y nifer sydd yn fenywod a'r nifer sydd yn ddynion.

(4) Rhaid i'r awdurdod gyhoeddi'r wybodaeth y mae wedi ei chasglu yn unol â pharagraffau (1), (2) a (3).

(5) Nid oes dim yn y rheoliad hwn y mae awdurdod i'w ddibynnu arno yn y fath fodd ag i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw berson y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo ddarparu gwybodaeth i'r awdurdod.

(6) Mae paragraff (5) yn gymwys—

(a) i unrhyw gyflogai i'r awdurdod; a

(b) i unrhyw berson sy'n gwneud cais am gyflogaeth gyda'r awdurdod.